



**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD  
DUR A MÔR, PARC MARGAM A'R FRO 2025**

Cystadleuaeth 85 – Deuawd Cerdd Dant 7, 8 a 9

**Hapus, Nesta Wyn Jones**

Mae'r byd yn llawn o hadau dant y llew  
Pob un yn blufyn sidan uwch y rhew.  
Rhyw ogordroi heb sisial  
Yr awel yn eu cynnal –  
Mae'r byd yn llawn o hadau dant y llew.

Mae'r byd yn llawn o swigod sebon glân,  
Rhai gloyw, a rhai'n enfys fach ar dân,  
Llanwant yr awyr ar ei hyd  
Gan guddio'n llwyr holl lygredd byd –  
Mae'r byd yn llawn o swigod sebon mân.

Mae'r byd i gyd yn llawn o bob rhyw sêr,  
Rhai'n wincio'n ddisglair a rhai papur blêr.  
Wrth chwerthin drwy fy nagrau  
Fe doddant oll yn ddarnau –  
Mae'r byd yn llawn, yn llawn o bob rhyw sêr ...